



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Atodiad D: Asesiad Effaith Rheoleiddiol

**Rheoliadau Addysg (Diwygiadau'n Ymwneud â Gwybodaeth
Asesiadau Athrawon) (Cymru) 2018**

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.



© Hawlfraint y Goron Tachwedd 2017
WG31469

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Dewis 1 – Gwneud dim	3
Opsiwn2 – Diwygio’r holl reoliadau angenrheidiol (<i>yr opsiwn a ffefrir</i>)	6
Ymgynghori	11
Rhestr o atodiadau	12

Cyflwyniad

Datblygwyd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn i ystyried goblygiadau rheoleiddiol y newidiadau arfaethedig i'r ffordd y defnyddir data ysgolion (asesiadau athrawon a Phrofion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol).

O 2018/19 ymlaen, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu peidio â chyhoeddi data asesiadau athrawon a Phrofion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (prawf) islaw'r lefel genedlaethol. Ar hyn o bryd, mae'n ofyniad statudol i ysgolion a chyrff eraill ddefnyddio'r data hwn yn eu rolau. Mewn ymateb, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig rheoliadau newydd i sicrhau na fydd unrhyw ddyletswyddau cyfredol sydd ar gyrff i ddefnyddio data asesiadau athrawon a Phrofion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (prawf) islaw'r lefel genedlaethol, yn gymwys mwyach.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn adolygu'r cynnig, gan ganolbwyntio ar reoliadau newydd, *'Rheoliadau Addysg (Diwygiadau'n Ymwneud ag Asesiadau Athrawon) (Cymru) 2018'*.

Mae'r Asesiad yn adolygu dau opsiwn:

- *"Gwneud Dim" (Ilinell sylfaen).* Byddai'r opsiwn o wneud dim yn golygu y byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i gyhoeddi data profion ac asesiadau athrawon. Felly, ni wneir unrhyw newidiadau i'r Rheoliadau cyfredol. Mae trefniadau presennol yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion a chyrff eraill ddefnyddio'r data a'r wybodaeth sydd yn y pecynnau data ac Adroddiadau Cymharol Ysgolion ar gyfer nifer o ddibenion diffiniedig. Rhoddir manylion llawn isod.
- *Diwygio'r holl reoliadau angenrheidiol.* Yr ail opsiwn yw gwneud diwygiadau i'r casgliad presennol o is-ddeddfwriaeth (Rheoliadau) sydd eu hangen i hwyluso'r newid mewn polisi, a fydd yn golygu peidio â chyhoeddi data profion ac asesiadau athrawon islaw'r lefel genedlaethol. Bydd y rheoliadau drafft arfaethedig yn diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol i adlewyrchu'r newidiadau a wneir i'r defnydd o ddata profion a data asesiadau athrawon. Rhoddir manylion llawn isod.

Dewis 1 – Gwneud dim

Cyd-destun Polisi

O dan opsiwn 1, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gasglu data o ysgolion (trwy eu hawdurdodau lleol a chydag awdurdodau lleol yn awdurdodi a dilysu) ar wefan Menter Cyfnewid Data Cymru (DEWi). Ar hyn o bryd mae prif gasgliadau data disgyblion unigol yn cynnwys:

- **Casglu Data Cenedlaethol (NDC)** o ddata asesiadau athrawon o gyrrhaeddiad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, Cyfnodau Allweddol 2 a 3, ac asesiad sylfaenol.
- **Casgliad Data Profion Cenedlaethol Cymru (WNTDC).** Canlyniadau o Brofion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ('data profion').

Gan ddefnyddio'r data uchod, mae Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu ac yn darparu set gyffredin o ddadansoddiadau data perfformiad ysgolion i bob ysgol ac awdurdod lleol. Mae Setiau Data Craidd Cymru Gyfan (AWCDS neu 'becynnau data') ac Adroddiadau Cymharol Ysgolion yn cael eu darparu fel adnoddau dadansoddol ar hyn o bryd at ddibenion cynllunio o fewn amgylchiadau unigol ysgol.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan (AWCDS)

Bwriedir AWCDS (sef 'pecynnau data') ar gyfer ysgolion yn unig. At ddibenion cymharol perfformiad, mae pob ysgol wedi'i grwpio'n rhan o 'deulu'. Mae'r teuluoedd yn cael eu creu drwy grwpio ysgolion yn ôl prif iaith (Cymraeg neu Saesneg), amlder prydau ysgol am ddim ac anghenion cymorth AAA, a chyfran y dysgwyr sy'n newydd i'r Saesneg neu'r Gymraeg, lle bo'n berthnasol. Yna caiff data ei ddwyn ynghyd i greu adroddiad manwl ar gyfer pob ysgol (er, at ddibenion diogelu data, mae'r data ar gyfer ysgolion eraill ym mhob teulu yn cael ei gelu).

Mae'r pecynnau data sy'n deillio o hyn yn cynnwys Pecyn Cyd-destunol a Phecyn Perfformiad ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ac ar gyfer pob Cyfnod Allweddol. Mae'r rhain yn darparu cyfres o ddadansoddiadau cyd-destunol o asesiadau athrawon o ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol. Cynhyrchir pecynnau data ar gyfer y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol hefyd.

Adroddiadau Cymharol Ysgolion

Er eu bod yn ddogfennau llawer llai, mae Adroddiadau Cymharol Ysgolion yn cynnig lefel bellach o ddadansoddiad o berfformiad ysgolion, er eu bod ar gyfer cynulleidfa ehangach. Yn benodol, mae'r adroddiadau hyn yn darparu'r wybodaeth gymharol sydd ei hangen ar benaethiaid wrth gyflwyno gwybodaeth i rieni a chyrff llywodraethu. Oherwydd hyn, o'i gymharu â'r AWCDS, mae'r data a welir yn Adroddiadau Cymharol Ysgol yn cael ei gelu. Mae yna ddau adroddiad o'r fath. Mae'r adroddiad cyntaf yn cynhyrchu'n awtomatig, ac yn syth, unwaith y bydd ysgol yn cofnodi ei data ei hun ar wefan DEWi. Cynhyrchir yr ail adroddiad yn ddiweddarach yn y flwyddyn academiaidd (Awst) ar ôl adolygu a mireinio'r data.

Cyd-destun Cyfreithiol

Mae nifer o ofynion cyfreithiol i wahanol gyrff ddefnyddio data profion ac asesiadau athrawon, fel y caiff ei gynnwys yn y pecynnau data uchod ac adroddiadau cymharol ysgolion. Byddai'r gofynion hyn yn parhau o dan opsiwn 1, ac maent fel a ganlyn.

1. Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid adrodd am berfformiad ysgol i rieni a disgyblion sy'n oedolion bob blwyddyn ysgol. Rhaid i'r adroddiadau gynnwys gwybodaeth gymharol ysgolion sy'n cymharu perfformiad ysgol ag ysgolion eraill yn yr awdurdod lleol neu yn y 'teulu o ysgolion'.

2. Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu gynhyrchu adroddiad i rieni bob blwyddyn ysgol. Rhaid i'r adroddiadau gynnwys gwybodaeth gymharol ysgolion sy'n cymharu perfformiad ysgol ag ysgolion eraill yn yr awdurdod lleol neu yn y 'teulu o ysgolion'.

3. Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu gynhyrchu prospectysau ar gyfer eu hysgolion. Rhaid iddynt gynnwys gwybodaeth gymharol ysgolion.

4. Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu lunio cynlluniau datblygu ysgol. Maent yn ei gwneud yn ofynnol iddynt roi sylw dyledus i wybodaeth gymharol ysgolion.

5. Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ddefnyddio data o wybodaeth gymharol ysgolion a phecynnau data i osod targedau perfformiad (a'u cyflwyno i'w hawdurdod lleol) ar gyfer dysgwyr, yn ogystal â thargedau i leihau absenoldeb mewn ysgolion.

6. Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod llywodraethwyr ysgolion yn derbyn hyfforddiant ar ddeall a defnyddio data ysgolion. Mae'r Rheoliadau'n pennu'r cynnwys ar gyfer yr hyfforddiant hwnnw trwy gyfrwng canllawiau statudol. Mae'r canllawiau cyfredol y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau yn cynnwys hyfforddiant ar adroddiadau cymharol ysgolion a data profion.

Costau a manteision opsiwn 1

Costau

Mae rhai wedi dadlau y bydd y dull 'Gwneud Dim' yn arwain at gostau cymdeithasol yn effeithio ar allu dysgwyr y presennol a'r dyfodol i dderbyn addysg. Yn Dyfodol Llwyddiannus,

mae'r Athro Donaldson yn cyfeirio at adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn 2014 a ganfu bod gwendidau yn y broses gyfredol o atebolrwydd yng Nghymru, megis bod y cydbwysedd rhwng atebolrwydd a gwelliant wedi bod yn wael a bod lle i roi mwy o bwyslais ar welliant. Felly byddai osgoi newid yn golygu y byddai perygl o golli cyfle uniongyrchol i wella canlyniadau academaidd plant a phobl ifanc yng Nghymru, a chost cyfle anuniongyrchol ar enillion economaidd cenedlaethau'r dyfodol.

Yn sgil eu diffiniad, ni ddylai costau ariannol uniongyrchol y dull 'Gwneud Dim' newid, gan y bydd y prosesau a'r dulliau o ddefnyddio data a gesglir o dan y casgliad presennol o reoliadau a pholisïau yn parhau fel arfer. Mae'r costau hynny sydd eisoes wedi'u gwario yn yr un modd ag o dan y dull 'Gwneud Dim' oherwydd y beichiau gweinyddol a'r gofynion adnoddau sydd eu hangen i gydymffurfio â'r rheoliadau presennol, yn gyntaf wrth gasglu a darparu data, ac yn ail wrth brosesu ac adrodd ar ddata. Mae baich y costau hyn i'w gweld ar athrawon, penaethiaid ac ymarferwyr eraill mewn ysgolion, yn ogystal ag awdurdodau lleol, consortia, awdurdodau arolygu a Llywodraeth Cymru. Bydd costau ariannol yn parhau hefyd er mwyn cynnal gwefan Fy Ysgol Leol. Fodd bynnag, gan nad oes unrhyw gostau ychwanegol wedi'u nodi fel rhan o'r opsiwn 'Gwneud Dim', mae'r adolygiad hwn yn adolygu gwybodaeth ansoddol yn unig.

Gan nad oes unrhyw gostau ychwanegol wedi'u nodi fel rhan o'r opsiwn 'Gwneud Dim', ni ystyriwyd unrhyw amserlen ddilynol o gostau.

Manteision

Mae'r systemau cyfredol o gasglu a defnyddio data wedi hen ennill eu plwyf. Nid oes unrhyw fanteision economaidd uniongyrchol pellach o ganlyniad i barhau ag opsiwn 1.

Opsiwn2 – Diwygio'r holl reoliadau angenrheidiol (yr opsiwn a ffefrir)

Goblygiadau polisi

Mae Opsiwn 2 yn golygu peidio â chyhoeddi asesiadau athrawon a data Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (prawf) islaw'r lefel genedlaethol. Cydnabyddir y bydd gan y newid hwn oblygiadau uniongyrchol, yn enwedig atal:

- argaeledd Setiau Data Craidd Cymru Gyfan (AWCDS) ar gyfer asesiadau athrawon ac ar gyfer y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar gyfer hunanwerthuso
- Adroddiadau Cymharol Ysgol ar gyfer asesiadau athrawon ac ar gyfer Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol
- cyhoeddi data asesiadau athrawon a data Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar gyfer dibenion cymharol ysgolion mewn adroddiadau a dogfennau, gan gynnwys:
 - Adroddiadau penaethiaid i rieni
 - Prospectysau ysgolion
 - Adroddiadau blynyddol llywodraethwyr ysgolion
- y defnydd o ddata asesiadau athrawon cymharol ysgolion fel rhan o'r hunanwerthuso gan ymarferwyr unigol ar gyfer arfarnu ac ar lefel ysgol ar gyfer cynllunio strategol.

Mae'r goblygiadau uchod yn cael eu datrys trwy ddiwygio'r Rheoliadau y rhoddir manylion amdanynt yn 'Goblygiadau Deddfwriaethol' isod. Fodd bynnag, mae yna ddau oblygiad polisi pellach:

Categoreiddio Cam 1 Ysgolion Cynradd

Ar hyn o bryd, mae consortia academiaidd rhanbarthol yn gweithredu'r system genedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion yng Nghymru. Mae'r System Gategoreiddio Ysgolion Genedlaethol (NSCS) yn darparu dull cenedlaethol cyson o gynorthwyo ysgolion i hunanwerthuso a chynllunio datblygiad. Prif ddiben NSCS yw nodi ysgolion sydd â'r angen mwyaf am gymorth, a sicrhau bod cymorth ac adnoddau yn cael eu targedu yn y modd mwyaf effeithiol i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol a chodi safonau a pherfformiad yng Nghymru. Nid yw'r system yn cael ei llywio gan ddata'n unig. Mae'n ystyried ansawdd yr arweinyddiaeth a'r addysgu a'r dysgu mewn ysgolion.

O dan opsiwn 2, ni fydd cam 1 (grŵp safonau) o gategoreiddio ysgolion cynradd yn parhau. Fodd bynnag, byddai camau 2 a 3 y system yn cael eu cryfhau. Mae pobl yn derbyn eisoes bod data asesiadau athrawon ar lefel gynradd yn llai dibynadwy a'i bod yn debyg y dylid ei symud o'r categoreiddio.

'Gwefan 'Fy Ysgol Leol'.

Mae canlyniadau'r prosesau NSCS uchod ar gael i'r cyhoedd ar wefan 'Fy Ysgol Leol'. Mae'r wefan yn agor mynediad at ddata ysgolion i bartïon â diddordeb, megis rhieni. Mae'r

wefan yn rhoi mynediad i wybodaeth gyd-destunol ar niferoedd disgyblion a staff, cyllid, cyrhaeddiad mewn pynciau, meincnodi, cyrhaeddiad a chategoreiddio ysgolion, gan gynnwys cymharu ag ysgolion eraill tebyg.

O dan opsiwn 2, ni fydd data cymharol ysgolion islaw'r lefel genedlaethol a chanlyniadau categoreiddio ysgolion cenedlaethol yn cael eu cyhoeddi ar wefan 'Fy Ysgol Leol' mwyach.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gasglu asesiadau athrawon a phrofion o dan opsiwn 2. Felly bydd asesu effeithiolrwydd polisi cenedlaethol, mewn perthynas â gweithgareddau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella cyflawniadau addysgol, yn dal i fod yn bosib o dan y cynnig.

Goblygiadau Deddfwriaethol

Bydd Opsiwn 2 yn golygu cyflwyno rheoliadau diwygio newydd, Rheoliadau Addysg (Diwygiadau'n Ymwneud â Gwybodaeth Asesu Athrawon) (Cymru) 2018, i ddileu'r holl ofynion statudol i ddefnyddio asesiadau athrawon a phrofion darllen a rhifedd cenedlaethol (prawf) islaw'r lefel genedlaethol. Mae fersiwn ddrafft o'r rheoliadau newydd wedi'i chynnwys law yn llaw â'r asesiad hwn yn Atodiad A.

1. Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011

Cynigir bod y Rheoliadau hyn yn cael eu diwygio fel na fydd adroddiadau penaethiaid yn cynnwys gwybodaeth gymharol ysgolion mwyach (ar gyfer asesiadau athrawon a phrofion). Bydd rhieni'n dal i dderbyn adroddiadau gan benaethiaid, gan gynnwys y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddeall perfformiad ysgol eu plentyn. Bydd rhieni'n gallu cymharu perfformiad ysgol eu plentyn gyda gwybodaeth genedlaethol hefyd.

2. Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011

Cynigir bod y Rheoliadau hyn yn cael eu diwygio fel na fydd adroddiadau blynyddol y llywodraethwyr yn cynnwys adroddiadau cymharol ysgolion mwyach (ar gyfer asesiadau athrawon a phrofion). Bydd gan rieni fynediad i adroddiadau gan lywodraethwyr o hyd, gan gynnwys y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddeall perfformiad ysgolion eu plant.

3. Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011

Cynigir bod y Rheoliadau hyn yn cael eu diwygio fel nad yw prospectysau'r cyrff llywodraethu'n cynnwys adroddiadau cymharol ysgolion mwyach (ar gyfer asesiadau athrawon a phrofion). Bydd y prospectws yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol am yr ysgol o hyd ar gyfer rhieni, dysgwyr a phob un arall sydd â buddiant. Byddant yn parhau i ddangos gwybodaeth am berfformiad yr ysgol ei hun, a bydd gwybodaeth gymharol yn parhau i fod ar gael ar lefel genedlaethol.

4. Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013

Cynigir y bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu diwygio i gyfeirio at ddogfen ganllawiau newydd. Bydd canllawiau newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer lywodraethwyr ysgol ar

ddeall data perfformiad yn cael eu diwygio fel na fyddant yn cynnwys cyfeiriadau at ddata profion ac asesiadau athrawon mwyach, mewn perthynas â phecynnau data ac Adroddiadau Cymharol Ysgolion. Bydd y gofyniad i sicrhau bod llywodraethwyr ysgol yn parhau i dderbyn yr hyfforddiant angenrheidiol i ddefnyddio data er mwyn dwyn eu hysgolion i gyfrif yn cael ei gadw.

5. Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014

Cynigir bod y Rheoliadau hyn yn cael eu diwygio fel bod y gofyniad i roi sylw dyledus i wybodaeth gymharol ysgolion (Adroddiad Cymharol yr Ysgol) yn cael ei ddileu. Bydd mynediad at ddata ar lefel genedlaethol yn parhau i fod ar gael a bydd gan gyrff llywodraethu ddata o'u hysgolion eu hunain o hyd. Bydd hyn yn sicrhau bod yr adnoddau yn parhau i fod gan ysgolion a chyrrff llywodraethu ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio.

6. Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011

Cynigir bod y Rheoliadau hyn yn cael eu diwygio i gael gwared ar gyfeiriadau at ddata cymharol fel sydd yn y pecynnau data ar gyfer yr ail a'r trydydd cyfnod allweddol. Mae hyn i sicrhau nad yw data o'r fath yn cael ei ddefnyddio at ddibenion atebolrwydd, o'i gymharu ag ysgolion lleol eraill. Bydd yr holl ofynion gosod targedau ar gyfer pob Cyfnod Allweddol yn parhau yn eu lle (sy'n gysylltiedig â'r polisi ysgolion sy'n gwella'u hunain).

Costau a manteision opsiwn 2

Costau

Mae yna gostau'n gysylltiedig â'r amser sy'n ofynnol i athrawon, penaethiaid ac ymarferwyr ysgol eraill ddod yn gyfarwydd â Rheoliadau a chanllawiau newydd. Disgwylir i'r gost hon ddigwydd yn 2018-19. Mae swyddogion wedi dilyn dulliau costio tebyg ar gyfer ymgyfarwyddo â rheoliadau tebyg¹. Gan ganiatáu 1.5 awr i benaethiaid ddarllen a lledaenu gwybodaeth, byddai'r amcangyfrif gorau ar gyfer y gost untro hon fel a ganlyn:

- 1,391 o benaethiaid a 186 o benaethiaid dros dro. Cyfanswm o 1,577
- 1.5 awr o amser gyda chost o £34.68 yr awr²
- Cyfanswm cost amcangyfrifedig ymgyfarwyddo, £82,030

Mae cost gymdeithasol i awdurdodau lleol a rhieni wedi'i nodi oherwydd na fydd data asesiadau athrawon ar gael islaw lefel genedlaethol mwyach, ynghyd â'r risg y gall sefydliadau eraill, gan gynnwys awdurdodau lleol a chonsortia, geisio dyblygu'r data mewn ffordd arall. Os na chyflwynir yr adroddiadau cymharol i bob ysgol fel mater o drefn, ac os na fydd y data ar gael i benaethiaid, llywodraethwyr ysgolion ac awdurdodau lleol wedyn, mae risg hefyd o anghydraddoldeb yn y wybodaeth a ddarperir i rai awdurdodau lleol ac ysgolion lle mae dim ond y rhai sy'n gofyn am fynediad at y wybodaeth sy'n cael mynediad iddi.

¹ https://www.legislation.gov.uk/ukia/2015/264/pdfs/ukia_20150264_en.pdf

² Mae costau adnoddau amcangyfrifedig ar gyfer penaeithiaid wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio cyflog fesul awr uwch weithwyr proffesiynol sefydliadau addysgol yng Nghymru, gan yr Arolwg Blyneddol o Oriau ac Enillion 2016 (ASHE) dros dro.

Ystyriwyd costau i hyfforddiant llywodraethwyr ysgol statudol ar ddefnyddio data hefyd, fodd bynnag gan fod gofynion hyfforddi wedi'u sefydlu eisoes, mae'r rhain yn gostau blaenorol, ac ystyrir mai prin yw effaith y newidiadau.

Bydd costau eraill, a restrir isod, yn wynebu Llywodraeth Cymru a chânt eu hymgorffori o fewn cyllidebau costau rhedeg adrannol perthnasol.

- Gan y byddwn yn parhau i gasglu data profion ac asesiadau athrawon ar bob lefel, efallai y bydd yn ofynnol i ni ryddhau data cymharol ar ysgolion ar gais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Mae Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (Terfyn a Ffioedd Addas) 2004 yn caniatáu ar gyfer costau o £25 yr awr i weinyddu ceisiadau rhyddid gwybodaeth³. Bydd swyddogion polisi yn y gangen gysylltiedig a'r ystadegwyr sy'n gyfrifol am wybodaeth ysgolion yn amcangyfrif y byddai angen 8 awr i gwblhau pob cais rhyddid gwybodaeth o'r fath. Mae'n anodd iawn rhagweld faint o geisiadau o'r fath fyddai'n cael eu derbyn, ond ar sail 2 gais y mis, gallem amcangyfrif y byddai'r gost flynyddol yn £4,800.

- Bydd angen diwygiadau i amrywiol ddogfennau canllawiau statudol ac anstatudol. Mae tabl o'r dogfennau canllawiau sydd i'w diwygio i'w gweld yn Atodiad C.

Bydd angen diwygio chwe dogfen ganllawiau o ganlyniad i'r newidiadau i ddeddfwriaeth. Amcangyfrifir mai £7,170 fydd cyfanswm y gost o ddiwygio'r holl ddogfennau canllawiau cysylltiedig. Byddai'r gost hon yn digwydd yn 2018-19. Mae swyddogion polisi sy'n gyfrifol am bob maes gwaith wedi didoli costau amcangyfrifedig y diwygiadau fel a ganlyn:

- *Cyfarwyddyd ar hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr a chlercod (2013)*
 - 3 diwrnod o amser Uwch Swyddog Gweithredol (SEO) = £660
 - 2 ddiwrnod o gymorth gan y Gangen Gwella Ysgolion ar lefel SEO = £440

Bydd diwygiadau i'r canllawiau hyn yn cael eu cefnogi gan Llywodraethwyr Cymru.
- *Cynlluniau datblygu ysgolion (2014)*
 - 2 ddiwrnod o amser Uwch Swyddog Gweithredol = £440
- *Rheoli perfformiad ar gyfer athrawon a rheoli perfformiad ar gyfer penaethiaid (2012)*
 - 2 ddiwrnod o amser Uwch Swyddog Gweithredol = £440
- *Canllawiau athrawon ar hunanwerthuso (2015)*
 - 20 diwrnod o amser Swyddog Gweithredol Uwch = £3,430, a mwy
 - 5 diwrnod o amser Uwch Swyddog Gweithredol = £1,100
- *Rheoliadau ynghylch adrodd am wybodaeth am ysgolion a disgyblion: canllawiau cryno*
 - 3 diwrnod o amser Uwch Swyddog Gweithredol = £660

Manteision

Y bwriad yw y bydd manteision cymdeithasol (addysgol) wrth wneud newidiadau rheoleiddiol yn y tymor byr drwy ail-ffocysu asesiadau at ddibenion dysgu ac oddi wrth atebolrwydd. Nid yw hynny'n golygu y bydd atebolrwydd yn dod yn llai effeithiol - bydd

³ <http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2004/3244/contents/made>

ffynonellau asesu heblaw athrawon, megis canlyniadau arholiadau ar gyfer ysgolion uwchradd, ar gael o hyd. At hynny, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynlluniau yn ddiweddar ar gyfer model atebolrwydd gwell yn *Addysg Cymru: Cenhadaeth ein cenedl*. Bydd Llywodraeth Cymru'n gallu defnyddio gwybodaeth i nodi gwelliannau ar lefel system, ond ni ellir defnyddio'r wybodaeth hon i ddylanwadu ar yr ymddygiad ar lefel ysgol unigol. Golyga hyn y gellir defnyddio asesiadau athrawon at ddibenion gwybodaeth ond nid at ddibenion atebolrwydd ysgol islaw lefel genedlaethol, gan ailsefydlu ymddiriedaeth gydag ysgolion. Ni fyddai asesiadau athrawon yn cael eu gweld mwyach fel rhywbeth unochrog a hynod arwyddocaol mewn system atebolrwydd, a gallai (a dylai) targedau dysgu gael eu pennu ar gyfer dysgwyr unigol o hyd. Yn y tymor hir, bydd y newidiadau yn helpu i baratoi'r ffordd ar gyfer diwygio'r cwricwlwm yng Nghymru hefyd, yn unol â'r argymhellion hynny a wnaed gan yr Athro Donaldson yn *Dyfodol Llwyddiannus*.

Mae yna arbedion cost posibl gan na fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data ar lefel is na'r lefel genedlaethol mwyach nac yn darparu pecynnau data, er, gan fod y pecynnau data hyn yn cael eu darparu'n electronig, ystyrir mai bach iawn yw manteision o'r fath. At hynny, fel yr amlinellir yn yr adran 'gostau' uchod, bydd risg ychwanegol o Lywodraeth Cymru'n derbyn mwy o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth am ddata ysgolion.

Ymgynghori

Mae'r cynnig i newid y ffordd y defnyddir data asesiadau athrawon yn dibynnu ar y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru mewn deddfwriaeth sylfaenol. Mae nifer o'r Deddfau hyn yn gosod dyletswydd statudol i ymgynghori ac yn nodi pwy y dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â nhw, er enghraifft, awdurdodau lleol a chymdeithasau awdurdodau lleol, yn ogystal â'r cyrff sy'n cynrychioli buddiannau llywodraethwyr ysgolion ac athrawon. Felly, datblygwyd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn i gefnogi a llywio'r broses ymgynghori. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cyhoeddir adroddiad ymgynghori a diwygir yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i adlewyrchu unrhyw bryderon ychwanegol cyn cyflwyno'r rheoliadau gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Asesiad o'r gystadleuaeth

Ni chwblhawyd asesiad llawn o'r gystadleuaeth yn achos y cynnig hwn, gan nad yw'r newidiadau deddfwriaethol arfaethedig yn effeithio ar fusnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol. Nid yw'n debygol y bydd unrhyw effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth, gan fod y bwriedir i'r rheoliadau arfaethedig effeithio ar y sector cyhoeddus yn unig. Dangosir prawf hidlo'r gystadleuaeth isod.

Prawf hidlo'r gystadleuaeth	
Cwestiwn	Y/N
C1: Yn y farchnad (marchnadoedd) y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran o'r farchnad?	Na
C2: Yn y farchnad (marchnadoedd) y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 20% o gyfran o'r farchnad?	Na
C3: Yn y farchnad (marchnadoedd) y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a yw cyfran y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd yn 50% o leiaf?	Na
C4: A fyddai costau'r rheoleiddio'n effeithio ar rai cwmnïau lawer mwy nag eraill?	Na
C5: A yw'r rheoleiddio'n debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y busnesau/sefydliadau?	Na
C6: A fyddai'r rheoleiddio'n arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes raid i gyflenwyr presennol eu talu?	Na
C7: A fyddai'r rheoleiddio'n arwain at gostau parhaus uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes raid i gyflenwyr presennol eu talu?	Na
C8: A yw newidiadau technolegol cyflym yn un o nodweddion y sector?	Na
C9: A fyddai'r rheoleiddio'n cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, y detholiad neu leoliad eu cynhyrchion?	Na

Rhestr o atodiadau

Mae'r atodiadau canlynol i'r ddogfen hon ar gael i'w gweld ar dudalen ymgynghori gyfatebol Llywodraeth Cymru.

Atodiad A - Copi o'r rheoliadau diwygio *'Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n ymwneud â Gwybodaeth Asesiadau Athrawon) (Cymru) 2018'*

Atodiad B – Tabl o ymarferion casglu a rhyddhau data

Atodiad C – Tabl o ddogfennau canllawiau i'w diwygio

Atodiad E – Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant drafft

Atodiad F – Geirfa termau